4 Ionawr 2021

Annwyl Riant / Ofalwr

Blwyddyn Newydd Dda i holl aelodau cymuned Ysgol Gyfun Gwyr.

Trefniadau Dechrau Tymor Clustnodir Dydd Llun 4 Ionawr a Dydd Mawrth 5 Ionawr fel diwrnodau paratoi ar gyfer y tymor newydd. Bydd gwersi o hirbell i Flynyddoedd 7 i 13 yn dechrau ar fore Mercher. Bydd y gwersi yn dilyn amserlen Wythnos 2, wedi ei dilyn gan Wythnos 1 ar 11 Ionawr. Os oes problemau cysylltu â'r gwersi rhithiol, yna cysylltwch â Phennaeth Blwyddyn eich plentyn yn syth. Bydd cofnod o'r disgyblion sy'n 'mynychu'r gwersi hyn yn cael ei gadw, a byddwn yn cysylltu â chi os cyfyd problem presenoldeb i wersi. Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru heno, y bwriad yw croesawu Blynyddoedd 7-13 nol i'r safle ar Ddydd Llun 18 Ionawr.

Arholiadau Allanol yn Ionawr Bydd yr Ysgol yn cysylltu ag unrhyw ddisgybl sy'n sefyll arholiadau allanol galwedigaethol yn ystod yr wythnos gyntaf nôl. Bydd yr arholiadau hynny yn cael eu cynnal ar safle'r Ysgol yn ôl y bwriad.

Trefniadau Asesu Haf 2021 – TGAU, AS a Lefel A Cafwyd gwybodaeth o Lywodraeth Cymru ar ddiwedd Rhagfyr yn cadarnhau y bydd gwaith TGAU a Lefel A yn cael ei asesu mewn tair ffordd.

- Asesiadau nad ydynt yn arholiadau megis gwaith cwrs neu asesiadau llafar (lle mae'r rhain eisoes yn rhan o'r cymhwyster rydych yn ei gymryd).
- Asesiadau mewnol a fydd yn cael eu marcio gan athrawon.
- Asesiadau allanol, a farcir gan CBAC.

Dyma'r unig asesiadau a fydd yn cyfrif tuag at raddau allanol TGAU a Lefel A ac AS yn 2021 ac ni fydd disgwyl i neb wneud unrhyw un o'r rhain tan ar ôl hanner tymor Chwefror. Bydd CBAC yn darparu'r deunydd ar gyfer yr asesiadau mewnol ac allanol a byddan nhw yn rhannu gwybodaeth ymlaen llaw fel y gall athrawon helpu'r disgyblion a myfyrwyr i baratoi. Bydd athrawon yr Ysgol yn penderfynu sut a phryd y cynhelir yr asesiadau hyn fel y gellir eu cyflwyno fel rhan o'r gwersi dros y misoedd nesaf. Mae'r Ysgol yn aros i dderbyn mwy o fanylder am natur a chynnwys yr asesiadau hyn, a gwnawn ein gorau dros y misoedd nesaf i wneud yn siwr bod asesiadau disgyblion a myfyrwyr Ysgol Gyfun Gwyr yn adlewyrchu safon eu cyrhaeddiad.

Croeso Croeso ar ddechrau Ionawr i Mr Gethin Bennett, fel Athro Dros Dro Addysg Grefyddol a'r Fagloriaeth. Dymunwn yn dda iddo ar gyfer ei gyfnod yn yr Ysgol.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Hyfforddiant Mewn Swydd Atgoffir chi bod diwrnod **HMS** ar **Ddydd Gwener 12 Chwefror 2021.**

Bwyd yn y Ffreutur Gohiriwyd y peilota ar gyfer Ap Archebu Bwyd newydd yr Ysgol oherwydd yr hunan-ynysu a fu ar ddiwedd y tymor diwethaf, ond byddwn yn bwrw ati yn ystod y tair wythnos nesaf i sicrhau bod yr Ap yn weithredol mor fuan â phosib. Byddaf yn danfon llythyr allan i bob rhiant / gofalwr yn ystod yr wythnos nesaf yn cyflwyno gwybodaeth i chi am sut i gofrestru gyda chwmni Squid er mwyn gallu talu am fwyd yn y ffreutur o hirbell. Datblygwyd yr Ap arloesol hwn gan Dill, sy'n gwmni cyfrifiadurol lleol. Mwy o fanylion i ddeall - diolch am bob cydweithrediad.

Lleoliadau Gwersi Er y bwriad i weithredu'n wahanol, byddwn bellach yn glynu at yr un lleoliadau ar gyfer gwersi Blwyddyn 7 (Dyniaethau), Blwyddyn 8 (Adran Saesneg), a Blwyddyn 9 (Adran Gymraeg) yn ystod y tymor nesaf. Bydd ardaloedd hamdden Blynyddoedd 7 - 13 yn aros yn yr un mannau yn ystod amser egwyl a chinio, amserau cinio gwahanol ar gyfer Blwyddyn 7-9 a Blwyddyn 10-13, a rhyddhau gwasgarog i'r bysiau ddiwedd dydd.

Cynnal hylendid a chadw at reolau Gofynnwn i chi barhau i atgyfnerthu negeseuon yr Ysgol o ran glynu at safonau hylendid golchi dwylo a thisian, gwisgo mygydau ar y bysys ac ym mhob sefyllfa ar y safle (namyn yr ystafell ddosbarth), cadw pellter, a dilyn ein llwybrau unffordd ar y safle.

Diolch i chi am eich cydweithrediad a'ch amynedd parhaus yn y sefyllfa heriol bresennol – rydym wir yn edrych ymlaen at groesawu eich plant yn ôl i'r safle cyn gynted â phosibl, a darparu'r addysg orau mewn amgylchedd cyfarwydd.

Pennaeth

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

4th January 2021

Dear Parent / Carer

Happy New Year to all the Community of Ysgol Gyfun Gwyr.

Start of Term Arrangements Monday 4 January and Tuesday 5 January are earmarked as preparation days for the new term. Distance learning Years 7 to 13 will begin on Wednesday mornings. The lessons will follow the Week 2 timetable, and the Week 1 timetable from Monday 11 January. If there are problems engaging with the virtual lessons, then contact your child's Head of Year immediately. A record of pupils 'attending these lessons' will be kept, and we will contact you if there is an issue regarding attendance in these lessons. Following today's announcement by Welsh Govt, the intention is currently to welcome Years 7-13 to the site on Monday 18 January.

External Examinations in January The School will contact any pupil sitting vocational external examinations during the first week back. Those examinations will be held on the School site as planned.

Summer 2021 Assessment Arrangements – GCSE, AS and A Level Information was received from the Welsh Government at the end of December confirming that GCSE and A Level work will be assessed in three ways.

• Non-examination assessments such as coursework or oral assessments (where these are already part of the qualification you are taking)
• Internal assessments which will be marked by teachers.
• External assessments, marked by WJEC.

These are the only assessments that will count towards GCSE and A level and AS external grades in 2021 and no-one will be expected to do any of these until after the February half term. WJEC will provide the material for the internal and external assessments and will share information in advance so that teachers can help pupils and students prepare. The School's teachers will decide how and when these assessments will be carried out so that they can be delivered as part of the lessons over the coming months. The School is waiting to receive more detail about the nature and content of these assessments, and we will do our best over the coming months to make sure that pupils' and students' assessments at Ysgol Gyfun Gwyr reflect the standard of their attainment.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Croeso A very warm welcome at the beginning of January to Mr Gethin Bennett, as a teacher of Religious Education and the Welsh Baccalaureate. We wish him well for his time at the School.

In-Service Training You are reminded that there is an INSET day on Friday 12 February 2021.

Food in the Canteen The pilot for the new School Food Pre-Order App was postponed due to the self-isolating that took place at the end of last term, but we will proceed over the next three weeks to ensure that the App is operational as soon as possible. I will be sending out a letter to all parents / carers over the next week presenting you with information on how to register with Squid so that food can be paid for on-line. This innovative App was developed by Dill, a local computer company. More details to follow - thank you in anticipation of your co-operation here.

Location of Lessons Contrary to our initial intentions, we will now adhere to the same location for Year 7 (Humanities), Year 8 (English Department), and Year 9 (Welsh Department) lessons during the next term. Years 7 - 13 areas during break and lunch times will remain in the same places, there will still be different lunch times for Year 7-9 and Year 10-13, and ered we will continue with the staggered release of pupils at the end of the day.

Maintaining hygiene and adhering to rules We ask you to continue reinforcing the School's messages in terms of adhering to the hygiene standards of hand washing and sneezing, wearing masks on the buses and in all situations on site (except the classroom), maintaining social distance, and following our one-way system on site.

Thank you for your continued co-operation and patience in the current challenging situation – we are looking forward to welcoming your children back on site as soon as is possible, and providing the very best education in familiar surroundings.

Headteacher

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk